

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Rhagfyr 5ed yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Tuesday, December 5<sup>th</sup> at Penbryn Memorial Hall.*

## **Yn Bresennol/Present**

Cynghorwyr/*Councillors* Delfryn Owens, Teifi Davies, Walwyn Jones, Gareth Evans, William Anwyl, Jonathan Rees.

### **1 Ymddiheuriadau/Apologies**

Cynghorwyr/*Councillors* Gwyn James, Caerwyn Owen, Melva Phillips, Barri Davies.

### **2 Materion Personol/Personal Matters**

Dim i'w adrodd/*Nothing to report*

### **3 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 7/11/23**

Cynigiwyd gan Teifi eu bod yn gywir a'i eilio gan Walwyn.

*Proposed to be correct by Teifi and seconded by Walwyn.*

### **4 Materion yn Codi/Matters Arising**

#### **i) Gwefan y Cyngor/*Council Website***

Gwnaeth Graham Jones gais am ragor o ddeunydd ar gyfer y wefan, sef, pwt bach o hanes ar bob un o bentrefi'r plwyf, i gydfynd â'r lluniau sydd eisoes wedi'u cyfrannu. Ychydig ddyddiau cyn y cyfarfod hwn, gofynnodd Graham am ganiatâd i ymestyn y cytundeb sydd ganddo gyda'r Cyngor Cymuned i ddatblygu'r wefan am ddwy flynedd arall. Cadarnhaodd y Clerc fod yr aelodau yn awyddus i hynny ddigwydd gan adnewyddu'r cytundeb yn y man a'r lle.

*Graham Jones requested further information for the website, namely, a brief introduction to the history of each village within the parish to accompany the pictures already provided. A few days before this meeting, he also asked for authorisation to renew his 2 year cycle agreement with the Community Council. The Clerk authorised this directly allowing him to continue to develop the website.*

#### **ii) Gohebiaeth â Swyddfa Elin Jones/*Correspondence with Elin Jones***

Anfonwyd gohebiaeth at Swyddfa Elin Jones ar ran y Cyngor Cymuned, ynghylch y pryder lleol am ddyfodol ansicr gwasanaethau bysiau lleol ar draws y sir.

Pwysleisiwyd pa mor hanfodol ydynt i nifer fawr o'n hetholwyr.

*The Clerk corresponded with Elin Jones's Office on behalf of the members, regarding the concern locally about the uncertainty surrounding the future of our bus services. The correspondence stressed how vital are these services to our communities.*

#### **iii) Maes Chwarae Brynhoffnant/*Play Area for Brynhoffnant***

Yn dilyn ein trafodaeth ar y pwnc uchod yn ystod y cyfarfod diwethaf, gohebwyd â Ben Lake ynghylch y mater. Eglurwyd wrtho beth oedd y sefyllfa ar lawr gwlad, ynghyd â'r dewisiadau posibl sydd yn wynebu'r ymgyrchwyr.

*Following our discussion about the above mentioned subject, the Clerk corresponded with Ben Lake's Office. The correspondence explained our present situation and the various options facing those who advocate such a scheme.*

### **5 Cyllid/Finance**

- i) Praesert 2024/24 Precept  
Cyflwynodd y Clerc grynoded o amcangyfrifon costau'r Cyngor ynghyd â gwerth cyfraniadau presennol y Cyngor a lefel y Praesert am y llynedd sef £12000. Tafolwyd ble y gellid cwtdgi ar rai costau a chynyddu gwariant mewn meysydd eraill. Yn dilyn pwyso a mesur, cytunwyd yn unfrydol i gnoi cil a gohirio penderfyniad terfynol tan y cyfarfod nesaf.

*The Clerk presented a summary of the Council's estimated costs, along with information regarding the present Precept level namely £12000, and a list of contributions made by the Council. Discussions considered where costs could be reduced or even increased in certain fields. Having considered, it was unanimously agreed to postpone the final decision until next month's meeting.*

## **6 Cynllunio/Planning**

- i) Erwlas, Glynarthen. Extension to existing private garage for private workshop and storage of personal vehicles.

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

## **7 Gohebiaeth/Correspondence**

- i) Llythyr Ymddiswyddo Huw Davies/*Huw Davies's Resignation Letter*  
Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Huw yn ymddiheuro na fedrai barhau i fod yn aelod o'r Cyngor oherwydd ymrwymadau eraill. Diolchwn yn fawr iddo am ei wasanaeth dros y Cyngor a'r gymuned.  
*The Council received correspondence from Huw apologising that, due to other commitments, he was unable to continue to be a member of the Council. We thank him for his service within the Council and the community.*
- ii) Manylion Polisi Iaith Posibl/*Details of Possible Language Policy*  
Cyflwynodd y Clerc grynoded o ganllawiau Polisi iaith i'w ystyried o bosibl yn y dyfodol. Lluniwyd y rhain gan Gareth Ioan ble byddai'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael cydraddoldeb llwyr gyda chymorth cyfieithydd ar y pryd. Nodwyd y byddai angen talu am wasanaeth y cyfieithydd. Cytunwyd i gadw'r canllawiau dan ystyriaeth ac adolygu'r angen yn gyson.  
*The Clerk introduced a summary of a Language Policy for possible future adoption. Gareth Ioan outlined the criteria where both languages would be given equal status, with the assistance of an interpreter. It was noted that we would pay the Interpreter. It was agreed to consider the need and continue to review the situation.*

## **8 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

- i) Llwybrau Cyhoeddus ger Capel Penmorfa/*Public Footpaths nearby Penmorfa Chapel*  
Cododd Jonathan y cwestiwn a oedd llwybrau cyhoeddus wrth ymyl y Capel yn cael eu cadw'n agored ai peidio yn sgil gwerthiant y Capel yn ddiweddar? Yr oedd ansicrwydd ynghylch yr union llwybrau dan sylw felly cytunwyd y dylid adolygu'r sefyllfa yn y dyfodol wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.  
*Jonathan raised the issue of accessibility to public footpaths nearby the Chapel in the wake of the Chapel being sold. There was uncertainty regarding the mentioned footpaths. It was agreed therefore to review the situation whenever any new information was received.*
- ii) Ffurio Grwp WhatsApp/*Establish WhatsApp Group*

Awgrymodd William y dylid ystyried grwp o'r fath ar gyfer y Cyngor. Nid oedd pawb yn gwbl wybyddus ynghylch beth i'w wneud yn ei gylch. Ymatebodd drwy nodi enghreifftiau o grwpiau bychan eraill sydd yn cyfathrebu yn y ffordd hon gan grybwyll cynghorion technegol i'n cynorthwyo. Cytunwyd i'w gadw dan drafodaeth. *William suggested that we set up a WhatsApp group for the Council. Not everybody was acquainted with the technology. He referred to other groups who used this means of communication as well as further technical advice in its implementation. It was agreed to keep it under discussion.*

**9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting**

Cynhelir y Cyfarfod Nesaf Nos Fawrth, Ionawr 9ed 2024 am 7.30 y.h.

*Next Meeting will be held on Tuesday, January 9<sup>th</sup> 2024 at 7.30 p.m.*